

COVID-19 - Gwasanaethau gan archfarchnadoedd ar gyfer yr henoed, pobl anabl, pobl sy'n agored i niwed, gofalwyr a gweithwyr allweddol - Mai 2020

Pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (gwarchod)

Dylai pobl sy'n [eithriadol o agored i niwed \(gwarchod\)](#) fod wedi derbyn llythyr gan y Prif Swyddog Meddygol yn gofyn iddynt hunanynysu.

Mae'r llythyr yn egluro y dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol am gymorth i gael cyflenwadau bwyd hanfodol os nad yw teulu neu ffrindiau yn gallu helpu.

Mae pob archfarchnad yng Nghymru sy'n cynnig cludiant i'r cartref wedi derbyn setiau data yn cynnwys manylion y rheini sy'n gwarchod.

Pobl sy'n agored i niwed, neu'n hunanynysu ond ddim yn gwarchod

Dylai'r bobl hyn ofyn i ffrindiau, teulu neu gymdogion sy'n iach i fynd i siopa am fwyd neu hanfodion eraill ar eu rhan, neu ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'r sector cyhoeddus, busnesau, elusennau a'r cyhoedd yn paratoui helpu. Gallwch weld pa sefydliadau gwirfoddol sy'n gallu helpu yma <https://thirdsectorsupport.wales/cy/> a gallwch gael cyngor ar ba gymorth sydd ar gael i helpu gyda phethau fel siopa bwyd.

Mae gan y rhan fwyaf o'r archfarchnadoedd ffyrdd o dalu ar-lein, megis e-dalebau neu gardiau rhodd. Gall y person sy'n siopa ar ran rywun arall eu defnyddio yn y siop. I gael gwybod am yr opsiynau talu, ewch i:

- wefan yr archfarchnad
- [UK Finance](#) (y llais ar gyfer y diwydiant bancio a chyllid)

Gwybodaeth am Archfarchnadoedd

Amseroedd Agor - Oriau agor i'r henoed, pobl sy'n agored i niwed, gofalwyr, gweithwyr allweddol etc.

Archfarchnad	Yr Henoed / Pobl sy'n agored i niwed etc.		Y GIG etc.	
Tesco	Yr Henoed, Pobl sy'n agored i niwed	Llun, Mer, Gwe (9-10am) (nid yw'n cynnwys siopau 'express')	Gweithwyr y GIG Gweithwyr y GIG, gofal a	1 awr cyn i'r siopau agor ar ddydd Sul, 9-10am, Mawrth ac Iau Mynediad â blaenoriaeth i

			gwasanaethau brys eraill	siopau, dewch i flaen y ciw (gyda cherdyn adnabod)
Sainsbury's	Yr henoed, pobl anabl, pobl sy'n agored i niwed a gofalwyr	Llun, Mer, Gwe - 8-9am	Y GIG a Gofal Cymdeithasol	Llun - Sad 7:30-8:00
Morrison's			Gweithwyr y GIG	1 awr 6am-7am Llun-Sad 9:00-10:00 Sul
ASDA			Staff y GIG a gweithwyr gofal	8-9am – Llun, Mer, Gwe 9-10 Sul (edrych)
LIDL				
ALDI	Yr henoed a phobl sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu siopa ar-lein etc.	Llun-Sad - 30 munud cyn agor	"gweithwyr brys" - y GIG, yr heddlu, gwasanaeth tân, gweithwyr gofal cymdeithasol, ymatebwyr cyntaf, staff Ambiwlans Sant Ioan	Dydd Sul 30 munud cyn agor Blaenoriaeth o flaen y ciwiau (gyda cherdyn adnabod ar gyfer staff y GIG, yr heddlu a'r gwasanaeth tân)
Co-op	Y rheini sydd â risg uchel a'r rheini sy'n gofalu amdanynt	Awr siopa bwrpasol, 8-9am, Llun-Sad, 10-11am Sul	A gweithwyr y GIG	(fel yr un blaenorol)
Waitrose	Yr henoed a phobl sy'n agored i niwed	awr gyntaf ar ôl agor bob dydd	Gweithwyr y GIG	Mynediad â blaenoriaeth i siopau ac wrth y tiliau (nwyddau wedi'u neilltuo)
M&S	Yr henoed	Llun, Iau (awr gyntaf o fasnachu)	Gweithwyr y GIG, gwasanaethau brys, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol	Mawrth, Gwener (awr gyntaf o fasnachu)
Iceland	Yr henoed	8-9 bob dydd (dim ond y warws bwyd)	Staff y GIG, gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol	Awr olaf (Iceland a warws bwyd)

Siopa ar-lein a chludiant

Archfarchnad	Gwefan	Bocsys/parseli bwyd
Tesco	www.tesco.com	
Sainsbury's	www.sainsburys.com.uk	
Morrison's	https://groceries.morrisons.com/webshop/startWebshop.do Mae Morrisons hefyd yn cynnig gwasanaethau siopa dros y ffôn	https://www.morrisons.com/food-boxes/ Mae dewis o focsys ar gael. Mae bocsy yn cynnwys cynnyrch heb glwten ar gael
Asda	www.asda.com	https://foodboxes.asda.com
Lidl	www.lidl.co.uk Nid yw Lidl yn cynnig gwasanaeth siopa ar-lein	
Aldi	www.aldi.co.uk Nid yw Aldi yn cynnig gwasanaeth siopa ar-lein.	https://www.aldi.co.uk/food-parcels
Co-op	www.coop.co.uk Mae Co-op hefyd yn defnyddio Deliveroo i gludo bwyd https://deliveroo.co.uk/brands/co-op/	
Waitrose	www.waitrose.com	
M&S	https://www.marksandspencer.com/ Siopa bwyd ar-lein drwy'r gwasanaeth Deliveroo neu focs bwyd yn unig.	https://www.marksandspencer.com/l/gifts/food-boxes Mae bocsy yn cynnwys cynnyrch heb glwten ar gael
Iceland	www.iceland.co.uk	
Ocado	https://accounts.ocado.com/auth-service/sso/login	
Home Bargains	https://www.homebargains.co.uk	https://www.homebargains.co.uk/products/18539-essential-food-box-delivery-included.aspx
Spar	www.afbspar.co.uk	

Mae siopau cornel a siopau cyfleustra lleol hefyd wedi dechrau cynnig gwasanaethau cludo siopa i'r cartref. Caiff y gwasanaethau hyn eu hysbysebu'n aml drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ar wefan leol bwrpasol.

Cardiau rhodd gwirfoddolwyr

Gallwch brynu'r rhain ar-lein, a gallant gael eu defnyddio gan bobl ar wahân i'r prynwr er mwyn prynu nwyddau yn y siop ar ei ran.

Fel arfer, cânt eu prynu ar-lein, ac yna anfonir e-bost gyda chod bar i naill ai'r prynwr, neu dderbynnydd arall a enwebwyd, i'w ddefnyddio i brynu nwyddau yn y siop. Mae hyn yn galluogi taliad digyswllt i gael rhwng y gwirfoddolwyr a staff y siop.

Mae nifer o archfarchnadoedd bellach wedi datblygu'r cynlluniau hyn.

Tesco – <https://www.tescogiftcards.com/>

- Isafswm – uchafswm - £5 - £150
- Rhif y llinell gymorth: 0800 50 55 55*
- Gellir anfon cerdyn at y prynwr neu'r gwirfoddolwr dros e-bost i'w ddefnyddio yn y siop
- Gellir ei ddefnyddio yn y siop, wedi ei argraffu neu ar sgrin ffôn. Ni ellir ei wario ar-lein.
- Nid oes modd rhoi mwy o arian ar y cerdyn ond mae modd ei ddefnyddio nes bod yr holl arian ar y cerdyn wedi cael ei wario.
- Gallwch weld faint o arian sydd ar ôl drwy ffonio 0345 0757757.
- Prynu mewn Swmp / Pryniant Corfforaethol – ar gael ar wefan gorfforaethol Tesco, www.tescoforbusiness.com
Rhif ffôn corfforaethol: 0345 6000 968 a chyfeiriad e-bost: customerservices@tescoforbusiness.com

ASDA – <https://cards.asda.com/volunteer>

- Isafswm - uchafswm: £5 - £150
- Rhif y llinell gymorth: 08005193333
- Gellir anfon cerdyn at y prynwr neu'r gwirfoddolwr dros e-bost i'w ddefnyddio yn y siop
- Gallwch roi mwy o arian ar y cerdyn, ar-lein
- Mae hefyd yn gwerthu cerdyn ffisegol ac mae modd rhoi mwy o arian arno ar-lein, a'i anfon drwy'r post at rywun o'ch dewis chi
- Gellir ei ddefnyddio yn y siop wedi ei argraffu neu ar sgrin ffôn. Nid ydym yn siŵr a oes modd eu defnyddio ar-lein, fel cardiau rhodd eraill ASDA.
- Prynu mewn Swmp / Pryniant Corfforaethol - <https://www.asdabusiness.com/>
 - Rhif ffôn cerdyn corfforaethol 03332079661

Sainsbury's - <http://www.sainsburysgiftcard.co.uk/>

- Isafswm - uchafswm: £5-£250
- Rhif y llinell gymorth: 03712001597
- Gellir anfon cerdyn at y prynwr neu'r gwirfoddolwr dros e-bost i'w ddefnyddio yn y siop
- Nid oes modd anfon cardiau rhodd drwy'r post
- Gallwch edrych ar-lein i weld faint o arian sydd ar ôl ar eich cerdyn, ond nid ydym yn siŵr a oes modd rhoi mwy o arian arno ar-lein
- Bydd y prynwr yn derbyn e-bost pan gaiff y cerdyn ei agor, a phob tro y caiff ei ddefnyddio
- Gellir ei ddefnyddio yn y siop wedi ei argraffu neu ar sgrin ffôn. Ni ellir defnyddio'r cerdyn ar-lein
- Mae rhai cynhyrchion nad oes modd eu prynu gyda cherdyn rhodd, a'r unig eitem fwyd yw fformiwla babanod.
- Prynu mewn Swmp / Pryniant Corfforaethol - <http://www.sainsburysbusinessdirect.co.uk/>

Morrison's – <https://morrison.cashstar.com/store/recipient?locale=en-gb>

- Isafswm - uchafswm: £10 - £250
- Rhif y llinell gymorth: 03443815042
- Darparu cardiau ffisegol a chardiau e-rodd, a bydd y cardiau ffisegol yn cael eu postio i'r derbynnydd, a'r e-gerdyn yn cael ei anfon drwy e-bost
- Mae modd eu defnyddio yn unrhyw siop Morrison's, wedi'u hargraffu neu ar sgrin ffôn, gan gynnwys tiliau hunanwasanaeth. Nid oes modd eu defnyddio ar-lein
- Gallwch weld faint o arian sydd ar ôl drwy ffonio'r rhif ar gefn y cerdyn, neu ar-lein ar gyfer e-gardiau, ond nid oes modd rhoi mwy o arian ar y cerdyn
- Mae modd prynu cardiau rhodd i sefydliadau mewn swmp hefyd <https://morrison-biz.cashstar.com/home/>

Waitrose – <http://www.johnlewisgiftcard.com/>

- Isafswm - uchafswm: £10 - £500
- Archebu dros y ffôn / llinell gymorth: 03301230350
- Gellir anfon y cerdyn dros e-bost at y prynwr neu'r gwirfoddolwr i'w ddefnyddio
- Mae modd prynu cardiau rhodd ffisegol ar-lein, ond nid oes cysylltiad â lansiad y "cerdyn gwirfoddolwr"
- Mae gan Waitrose rif ffôn er mwyn prynu cardiau dros y ffôn hefyd

- Gellir defnyddio'r cerdyn yn y siop neu ar-lein
- Prynu mewn Swmp / Pryniant Corfforaethol: mae modd prynu cardiau rhodd corfforaethol arferol, ond nid oes cysylltiad â'r cynllun cerdyn gwirfoddolwr <https://www.johnlewis.com/business/corporategiftcardsandgifts>

M&S – <https://www.marksandspencer.com/all-in-this-together/p/p60282075?prevPage=srp>

- Isafswm - uchafswm: £10 - £500
- Rhif y llinell gymorth: 03330148444
- Gellir anfon y cerdyn dros e-bost at y prynwr neu'r gwirfoddolwr i'w ddefnyddio
- Gellir ei ddefnyddio ar-lein neu yn y siop
- Mae hefyd modd prynu cardiau rhodd ffisegol o M&S, ond nid oes cysylltiad â'r cynllun cerdyn gwirfoddolwr
- Mae modd prynu mewn swmp drwy dudalen rhoddion corfforaethol M&S (<https://marksandspencerforbusiness.com/>)
 - Rhif ffôn cerdyn corfforaethol 03330148444

Co-op

- Wedi lansio menter ar gyfer siopwyr sy'n agored i niwed ac sy'n hunanynysu neu'n gwarchod: <https://co-operate.coop.co.uk/support/need-support/>
- Ffoniwch 0800 029 4592 – rhif ffôn penodol Co-op
- Prynu cerdyn rhodd wedi'i rannu gyda gwirfoddolwyr etc.
- Gall y llinell gymorth hefyd gyfeirio pobl at gynlluniau cymorth gwirfoddolwyr awdurdodau lleol

ALDI - <https://vouchers.aldi.co.uk/>

- (nid e-gerdyn ar-lein)
- Mae modd prynu talebau ar-lein a'u postio er mwyn i bobl eraill allu siopa ar ran rywun arall.
- Maent ar gael i'w prynu fesul £5 a £10, heb gost ychwanegol i bostio
- Rhif ffôn gwasanaeth cwsmeriaid: 0800 042 0800
- Mae modd prynu taleb las (ond yn eithrio'r loteri) neu daleb oren (yn eithrio alcohol a'r loteri)
- Cysylltwch drwy vouchers@aldi.co.uk ar gyfer pryniannau sefydliadol.
- Os yw'r pryniant yn llai na chost y daleb, ni chaiff newid ei roi ac ni fydd y swm yn aros ar y daleb.

SPAR

- Partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol sy'n caniatáu i wirfoddolwyr siopa ar ran unigolion sydd angen y gwasanaeth hwn.

- Gall gynnwys siopau Spar annibynnol neu rai sy'n berchen i'r cwmni.